

**Busnes Cymru - Ffurflen Gais Grant Gofal Plant**

**Busnes Cymru - Datganiad Preifatrwydd**

Er mwyn i chi gael cymorth gan Busnes Cymru, mae'n ofynnol i ni gasglu gwybodaeth gennych chi. Cyn cwblhau a chyflwyno eich cais, darllenwch ein Datganiad Preifatrwydd sydd ynghlwm ar ddiwedd y ffurflen hon yn ATODIAD A.

**Darllenwch y nodiadau cyfarwyddyd cyn i chi lenwi'r ffurflen hon**

<b>Manylion amdanoch chi</b>							
Eich enw llawn:							
Eich rôl / teitl eich swydd o fewn y lleoliad gofal plant:							
Rhif(au) ffôn cyswllt:							
Eich cyfeiriad e-bost:							
<b>Manylion am eich lleoliad gofal plant</b>							
Enw'r lleoliad gofal plant:							
Cyfeiriad:				Côd Post:			
				Rhif(au) ffôn cyswllt:			
Gwefan:				Safle(oedd) cyfryngau cymdeithasol:			
A ydych wedi sefydlu fel busnes ar hyn o bryd? Os ydych, pa fath o leoliad ydych yn ei redeg? (peidiwch â thicio mwy na dau opsiwn):							
Gwarchodwr Plant	Meithrinfa	Cylch Chwarae / Cylch Meithrin	Clwb Gofal Plant tu hwnt i'r Ysgol	Menter Gymdeithasol	Unig Fasnachwr	Cwmni Cyfyngedig (yn cynnwys rhif cofrestru)	Arall, nodwch:
A ydych wedi cofrestru ar gyfer TAW? Os ydych, nodwch eich rhif cofrestru:							
Os ydych yn bwriadu sefydlu busnes gofal plant newydd, pa bryd ydych yn bwriadu dechrau?							
Os ydych yn fusnes newydd, pa fath o leoliad gofal plant ydych yn bwriadu ei sefydlu? (peidiwch â thicio mwy na dau opsiwn):							
Gwarchodwr Plant	Meithrinfa	Cylch Chwarae /Cylch Meithrin	Clwb Gofal Plant tu hwnt i'r Ysgol	Menter Gymdeithasol	Unig Fasnachwr	Cwmni Cyfyngedig	Arall, nodwch:
A ydych wedi cofrestru gydag Arolygiaeth Gofal Cymru (CIW)? Ydw / Nac ydw							
Nodwch eich Rhif Cofrestru CIW:							

Os 'Nac ydw', nodwch pam nad ydych wedi cofrestru:	
Faint o lefydd gofal plant cofrestredig sydd gennych <b>ar hyn o bryd</b> :	
Llai na 20 awr:	Mwy na 20 awr:
A ydych yn gallu darparu gofal plant trwy gyfrwng y Gymraeg? Ydw / Nac ydw	
Ydych yn gofalu am blant gyda anghenion ychwanegol neu arbennig ar hyn o bryd? Ydw / Nac ydw	
Os 'Ydw', faint o lefydd llai na 20 awr:	Os 'Ydw', faint o lefydd mwy na 20 awr:
Disgrifiwch yr anghenion ychwanegol neu arbennig:	
Dywedwch wrthym am eich cynlluniau ar gyfer y Grant Gofal Plant:	
Pa lefel o gyllid Grant ydych yn ymgeisio amdani (ticiwch): <b>*Sylwer:</b> Mae cyllid Lefel 2 ar gael dim ond ar gyfer creu llefydd gofal plant ychwanegol ar gyfer plant sydd ag anghenion arbennig neu ychwanegol	
Lefel 1 = £500	Lefel 2 = £1,000
Dywedwch wrthym mewn dim mwy na 200 gair: <ul style="list-style-type: none"> <li>• pam ydych eisiau'r Grant hwn;</li> <li>• sut byddwch yn gwario'r Grant (dadansoddiad gyda chostau);</li> <li>• sut bydd y Grant yn eich galluogi i gynnig llefydd gofal plant ychwanegol (dros 20 awr yr wythnos am bob lle gofal plant)</li> </ul>	
Faint o lefydd gofal plant ychwanegol fydd yn cael eu creu:	Faint o oriau ychwanegol am bob lle gofal plant:
Faint o lefydd gofal plant ychwanegol fydd yn cael eu creu ar gyfer plant sydd ag anghenion ychwanegol neu arbennig:	Faint o oriau ychwanegol am bob lle gofal plant:
Pa mor hir (yn dilyn dyfarnu'r Grant) fydd hi'n cymryd i chi allu cynnig y llefydd ychwanegol hyn? (nodwch ddyddiad neu amserlen [mewn misoedd]):	
Rhowch dystiolaeth o'r angen lleol am y gwasanaethau ychwanegol / galw (e.e. efallai bod gennych restr aros neu data Asesiad o Ddigonolrwydd Gofal Plant gan eich Awdurdod Lleol):	

Nodwch eich manylion banc i'n helpu ni brosesu'r Grant:	
Enw'r Banc:	
Cyfeiriad y gangen, gan gynnwys y cod post:	
Enw ar y Cyfrif:	
Rhif y Cyfrif:	Cod Didoli:
<b>DATGANIAD</b>	
Yr wyf fi, sydd wedi arwyddo isod, yn dymuno gwneud cais am Grant Gofal Plant Busnes Cymru.  Rwy'n cydnabod y bydd Llywodraeth Cymru a'i gontractwr penodedig yn: <ul style="list-style-type: none"><li>• ymgymryd ag unrhyw archwiliadau credyd ac archwiliadau busnes priodol eraill a ystyrir yn angenrheidiol i asesu'r cais</li><li>• manteisio ar y cyfle i rannu fy manylion a manylion fy musnes fel astudiaeth achos at ddibenion cyhoeddusrwydd</li><li>• gwirio natur ac effaith y Grant yn y dyfodol</li></ul> Mae Llywodraeth Cymru neu ei gontractwyr yn cadw'r hawl i adennill y swm Grant llawn os profwyd nad yw wedi'i wario yn unol â'r cais hwn.  Rwy'n datgan bod y wybodaeth a ddarperir yn y cais hwn yn wir ac yn gywir a bod gennyf yr awdurdod ariannol i ddelio ag unrhyw ymholiadau.	
Eich Llofnod:	Dyddiad:
Eich enw mewn priflythrennau:	

Anfonwch eich copi wedi'i sganio, ei lofnodi a'i ddyddio i: [Childcaregrant@businesswales.org.uk](mailto:Childcaregrant@businesswales.org.uk)

Neu postiwch gais wedi'i lofnodi a'i ddyddio i'r Gweinyddwr Grant Gofal Plant,  
Busnes Cymru, Parc Bocam, Uned 14/15 Heol Oldfield, Pencoed, Pen-y-bont ar Ogwr CF35 5LJ

Os ydych angen unrhyw gymorth gyda'r cais, siaradwch â'ch tîm Busnes Cymru lleol neu ffoniwch ni ar 03000 6 03000. Mae sgwrs fyw hefyd ar gael yn [businesswales.gov.wales/cy](http://businesswales.gov.wales/cy)

## **Grant Gofal Plant Busnes Cymru - Datganiad Preifatrwydd**

At ddibenion y Grant Gofal Plant, mae Llywodraeth Cymru ('ni') angen i chi ddarparu gwybodaeth benodol, a bydd peth o'r wybodaeth honno yn ddata personol. Llywodraeth Cymru fydd rheolydd data'r wybodaeth bersonol y byddwch yn ei darparu a bydd yr holl wybodaeth yn cael ei storio a'i defnyddio yn unol â'r Rheoliadau Diogelu Data Cyffredinol (GDPR) a'r Ddeddf Diogelu Data 2018. Bydd methiant i ddarparu'r wybodaeth hon i ni yn eich atal rhag bod yn gymwys ar gyfer y Grant a chael mynediad i'r gwasanaeth.

Bydd y wybodaeth yn ein galluogi i ystyried y ffyrdd gorau y gallwn ddarparu cymorth ac arweiniad busnes priodol i chi a'ch busnes. Rydym hefyd angen data buddiolwyr er mwyn bodloni gofynion adrodd y Comisiwn Ewropeaidd ar gyfer prosiectau wedi'u hariannu gan Gronfa Datblygu Rhanbarthol Ewrop. Bydd y data yn cael ei brosesu yn unol â'n tasg gyhoeddus a'r awdurdod swyddogol a roddwyd i ni.

Byddwn hefyd yn defnyddio'r wybodaeth i fonitro ac adrodd ar nifer yr unigolion a'r mentrau sy'n cymryd rhan mewn prosiectau a nifer y bobl o wahanol grwpiau sy'n cael eu cefnogi (e.e. gwahanol oedrannau, rhywiau ac ethnigrwydd) ac i gynhyrchu cyhoeddiadau ystadegol. I'r perwyl hwnnw, bydd y wybodaeth yn cael ei rhannu gyda:

- Sefydliadau ymchwil cymdeithasol cymeradwy, i gynnal gwaith ymchwil, dadansoddi neu fonitro cyfle cyfartal y gwasanaeth a roddir gan Busnes Cymru
- Y Comisiwn Ewropeaidd a'r Tîm Archwilio Cronfeydd Ewropeaidd (EFAT) a fydd yn cymryd samplau o'n data i sicrhau ein bod yn dilyn y prosesau cywir.

Sylwer na fydd sefydliadau ymchwil /gwerthuswyr ddim ond yn cysylltu â sampl o unigolion a/neu fentrau. Os cysylltir â chi i gymryd rhan mewn unrhyw ymchwil / gwerthusiad am eich profiad o'r prosiect, bydd pwrpas y cyfweiliad neu'r arolwg yn cael ei egluro i chi a rhoddir yr opsiwn i chi gytuno neu anghytuno i gymryd rhan. Ar gyfer ymchwil cymeradwy yn unig y bydd eich manylion cyswllt yn cael eu defnyddio a byddant yn cael eu dileu unwaith y bydd yr ymchwil gymeradwy hon wedi'i chwblhau.

Efallai y byddwn hefyd yn cysylltu â chi i ofyn am eich caniatâd i ddefnyddio eich manylion busnes ar gyfer gweithgareddau marchnata Busnes Cymru. Ni fydd Llywodraeth Cymru yn defnyddio eich data heb eich caniatâd at y diben penodol hwn.

Mae'n ofynnol i ni o dan ddeddfwriaeth Cymorth Gwladwriaethol i gadw eich data personol am o leiaf 10 mlynedd ar ôl i'r prosiect ddod i ben, ar ôl hynny bydd eich data'n cael ei ddinistrio'n ddiogel.

O dan y ddeddfwriaeth diogelu data, mae gennych yr hawl i:

- weld y data personol y mae Llywodraeth Cymru'n ei gadw amdanoch
- fynnu ein bod yn cywiro unrhyw wallau yn y data hwnnw
- wrthwynebu (o dan amgylchiadau penodol) i'ch data personol gael ei brosesu neu gyfyngu ar ei brosesu
- ofyn (o dan amgylchiadau penodol) i ni ddileu eich data

- gofrestru cwyn gyda Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth, sef ein rheolydd annibynnol ar gyfer diogelu data. Manylion cyswllt Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth yw:

Customer Contact

Wycliffe House

Water Lane

Wilmslow

Swydd Gaer

SK9 5AF

Rhif Ffôn: 01625 545 745 neu 0303 123 1113

Gwefan: [www.ico.org.uk](http://www.ico.org.uk)

Am help gydag unrhyw rai o'r hawliau uchod, ffoniwch ein Llinell Gymorth 03000 6 03000 neu anfonwch lythyr i:

Busnes Cymru

Sarn Mynach

Cyffordd Llandudno

LL31 9RZ

[businesssupport@gov.wales](mailto:businesssupport@gov.wales)

Manylion Cyswllt Swyddog Diogelu Data Llywodraeth Cymru:

Cyfeiriad:

Swyddog Diogelu Data

Llywodraeth Cymru

Parc Cathays

CAERDYDD

CF10 3NQ

Cyfeiriad E-bost: [Data.ProtectionOfficer@llyw.cymru](mailto:Data.ProtectionOfficer@llyw.cymru)